




JONES, JOHN WILLIAM (1883 - 1954), llenor, casglwr llythyrau ac amryfal bapurau, cyhoeddwr, hynafiaethydd a bardd gwlad



Enw: John William Jones

Dyddiad geni: 1883

Dyddiad marw: 1954

Priod: Maggie Jones (née Jones)

Rhiant: Ellen Jones (née Roberts)

Rhiant: David Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llenor, casglwr llythyrau ac amryfal bapurau, cyhoeddwr, hynafiaethydd a bardd gwlad

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoedd

Awdur: Meredydd Evans

Ganwyd 5 Mawrth 1883 yn 4, Caerffridd, Tanygrisiau, Meirionnydd, yn fab i David Jones, 'Glan Barlyd', a'i wraig Ellen (ganwyd Roberts), Llwynogan, Llanedwen, Môn. Addysgwyd ef yn ysgol Glan-y-pwll hyd nes yr oedd yn ddeuddeg oed ac yna treuliodd ddwy fl. arall yn yr Higher Grade School yn y Blaenau. Oddi yno, yn 1897, aeth i weithio i chwarel yr Oakley lle bu wrthi'n ddiwyd am 53 blynedd, nes ymdddeol wedi anafu ei glun. Priododd â Maggie Jones, Minffordd, Oakley Square, Tanygrisiau, 11 Mehefin 1913, a ganwyd iddynt un mab. Yn 1936 dewiswyd J.W. Jones yn flaenor yng nghapel Bethel (MC), Tanygrisiau, a bu hefyd yn athro Ysgol Sul ymroddgar, diddorol am flynyddoedd lawer. Bu'n gefn parod i fechgyn a merched ifanc darlengar ei ardal.

Fel 'Joni Bardd' y cyfeirid ato'n gyffredinol yn y fro a chyflawnodd swyddogaeth y bardd gwlad yn gydwybodol. Yr oedd ganddo ddiddordeb ysol mewn barddoniaeth Gymraeg a Saesneg ac yn arbennig mewn casglu a chyhoeddi gwaith rhai o feirdd ei ardal a'r cymdogaethau agos. Golygodd beth o weithiau Ap Alun Mabon : *Gwrid y Machlud* (Blaenau Ffestiniog, 1941); *Ioan Brothen* : *Linell neu Ddwy* (Blaenau Ffestiniog, 1942); *Gwilym Deudraeth* : *Yr Awen Barod* (Llandysul, 1943); Rolant Wyn : *Dŵr y Ffynnon* (Blaenau Ffestiniog, 1949), ac *R.R. Morris* : *Caneuon R. R. Morris* (1951). Un o'i gyfeillion agos oedd *Ellis Humphrey Evans* ('Hedd Wyn') a chynorthwyodd J.R. Jones gyda chyhoeddi *Cerddi'r bugail*. Rhoddodd beth cymorth i gasglu cynnwys *O Drum i Draeth Eliseus Williams* ('Eifion Wyn') ac i wneud cofiannau i *Owen Griffith Owen* ('Alafon') a *John John Roberts* ('Iolo Caernarfon'). Cynorthwyodd rywfaint ar *T. Gwynn Jones* yn ogystal, i gasglu ar gyfer y gyfrol *Welsh Folklore*. Ymhyfrydai'n arbennig yn ei gyfeillgarwch â *T. Gwynn Jones* a chafodd nifer o lawysgrifau oddi wrtho, yn cynnwys awdl Gwlad y Bryniau 'wedi i'r bardd ei hun ei hysgrifennu'.

Darlithiodd lawer ar feirdd ei fro mewn cymdeithasau llenyddol a chasglodd doreth o weithiau beirdd a llenorion Gwynedd, e.e., *Alafon*, *Elfyn*, *Isallt*, *W. Pari Huws*, *Gwilym Prysor*, *Carneddog*, *Glaslyn*, Barlydion, Gwilym Morgan, Awena Rhun, Glyn Myfyr, *Llifton*, ac eraill. Gofalodd hefyd bod beirdd, llenorion a cherddorion y cylch yn cael eu coffâu'n deilwng. Trefnodd i gael carreg fedd arbennig i *Robert Owen Hughes* ('Elfyn') a chofgolofn (carreg o Gwm Pennant) i ' *Eifion Wyn*'. Gyda chyfaill arall, a *T. Gwynn Jones*, mynnodd weld gosod carreg las ar fedd *Robert Roberts*, 'Y Sgolor Mawr' ym mynwent Llangernyw. Bu'n gyfrifol am y gofeb ger cartref *Thomas Lloyd* ('Crych Elen'), yn Nolwyddelan - daeth yr arian at hyn oddi wrth wraig o'r Amerig. Gofalodd am godi maen coffa i *Edward Stephen* ('Tanymarian') yn Rhyd Sarn, Dyffryn Maentwrog, a threfnodd gyfarfod coffa i ddadorchuddio cofeb i *Forgan Llwyd* yng Nghynfal Fawr. Yn ddiweddarach casglodd a golygodd gyfrol goffa sylweddol i'r llenor o Gynfal, *Morgan Llwyd o Wynedd*. *Coffa Morgan Llwyd* (1952). Casglodd arian yn ogystal at gronfa goffa *Syr O. M. Edwards*. Bu'n ohebydd cyson i newyddiaduron a chylchgronau ei gyfnod : *Y Glorian*; *Y Rhedegydd* (llawer iawn i hwn, am flynyddoedd); *Y Genedl* (cyfrannodd golofn wythnosol iddi am rai blynyddoedd- 'Nodion Meirion'); *Yr Herald Cymraeg* (amryw o ysgrifau ar feirdd a llenorion); *Y Brython*; *Y Ffynon*; *Y Dydd*; *Y Cymro* (yma yr ymddangosodd y golofn boblogaidd 'Y Faing Sglodion'); *Cymru*; *Y Genhinen*; *Cymru'r Plant*; *Trysorfa'r plant*; *Y Drysorfa fawr*; *Yr Eurgrawn*; *Yr Haul*; *Y Goleuad*; *Seren Cymru*. Ychydig cyn ei farw gwelodd gyhoeddi *Y Faing sglodion: casgliad o rai o straeon y chwarel a'r capel ...* (1953). Dros gyfnod hir o flynyddoedd anfonodd ddefnyddiau amrywiol a gwerthfawr (yn enwedig i'r hanesydd cymdeithasol) i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cynnwys llyfrau-lloffion niferus: cannoedd o lythyrau (rhai personol a rhai gan Gymry amlwg); llawysgrifau'n cynnwys gwaith amryw feirdd a llenorion; dogfennau amrywiol, megis cyfrifon sefydliadau, crefftwyr a diwydiannau lleol; cofnodion ac adroddiadau cyrff eglwysig a seciwlar; cerddi ac anerchiadau etholiadol - lleol a sirol; chwedlau lleol; rhaglenni eisteddfodau, cyngherddau a chymdeithasau llenyddol; darluniau o frodorion Ffestiniog; cerddi a chardiau coffa. Anfonodd ddefnyddiau tebyg i lyfrgell Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor. Bu farw 6 Ionawr 1954, yn ei gartref, a chladdwyd ef gyda'i briod (a'i rhagflaenodd o ddeuddeng mlynedd) ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog. Yr oedd yn esiampl nodedig o werinwr diwylliedig, parod ei gymwynas, a'i ofal am 'y pethe' yn ysgogi ei holl weithgarwch.

Awdur

Dr Meredydd Evans

Ffynonellau

Archifau LIGC: *Papurau J. W. Jones*

gwybodaeth gan ei fab John Penri Jones, Tanygrisiau a'i ferch-yng-nghyfraith

Trysorfa y Plant, 1941

adnabyddiaeth bersonol

Delweddau

John Roberts, David Jones, 'Glan Barlwyd', Tanygrisiau, a David Grimaldi Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 24338963

Wikidata: Q20821180

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Evans, M., (1997). JONES, JOHN WILLIAM (1883 - 1954), llenor, casglwr llythyrau ac amryfal bapurau, cyhoeddwr, hynafiaethydd a bardd gwlad. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-WIL-1883>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodi gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by:
Welsh Government